Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Santes Helen
# Twtil
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 1PF

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae ysgol gynradd Gatholig Wirfoddol Santes Helen yn unigryw gan mai hi yw'r unig ysgol Gatholig yng Nghymru sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Lleolir hi yn ardal Twtil tref Caernarfon yn awdurdod lleol Gwynedd.

Ar hyn o bryd, mae 77 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol a 12 disgybl tair a phedair oed. Mae'r nifer hyn ychydig yn uwch na phan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2005 ac mae'r nifer o ddisgyblion sydd yn rhan isaf yr ysgol yn uwch na'r rhan uchaf. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i ysgol Syr Hugh Owen ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gan nad oes ysgol uwchradd Gatholig gyfagos.

Mae 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydiau ysgol am ddim. Er bod hyn yn is na'r canran sirol a chenedlaethol, mae ychydig o dan hanner (42%) y disgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru. Tra bod mwyafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref mae canran y disgyblion sydd o gefndir ethnig (20%) yn agos i bum gwaith yn uwch na chanran yr awdurdod lleol.

Derbynia 34% o'r disgyblion gymorth anghenion addysg ychwanegol, canran sydd gryn dipyn yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae pedwar disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau, dros dro na pharhaol, yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr wedi bod yn eu swyddi ers cyn yr arolygiad blaenorol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Santes Helen yw £3,116 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 78ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi codi a gwella'n sylweddol ar yr hyn ydoedd dair blynedd yn ôl;
- medrau cyfathrebu llafar yn dda;
- medrau darllen yn dda erbyn cyrraedd diwedd Blwyddyn 6;
- dwyieithrwydd a thrawsieithu yn cael eu hyrwyddo yn effeithiol;
- plant o gefndir ethnig yn cael cefnogaeth bwrpasol a'r rhai hynny sydd wedi bod yn yr ysgol am nifer o flynyddoedd yn gwneud cynnydd da;
- yr ysgol yn integreiddio disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad yn dda; a
- safon y gofal ymarferol y mae disgyblion yn ei gael yn dda.

Ond barnwyd:

- nad yw perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol pherfformiad ysgolion tebyg;
- mai digonol yw safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith;
- mai anfoddhaol yw medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu erbyn diwedd cyfnod allweddol 2; a
- bod gormod o wahaniaeth rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched, gyda chyraeddiadau'r merched yn llawer uwch na'r bechgyn.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- nid oes cynnydd digonol yn llawer o'r prif faterion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf;
- nid yw hunan arfarnu'r ysgol o safon dderbyniol nac yn dangos bod yr arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn ddigon da;
- nid yw cynllun datblygu'r ysgol yn arf digon pwerus i gyfeirio'r ysgol at godi safonau a'u monitro;
- nid oes cyswllt digon amlwg rhwng y broses hunan arfarnu â chynllun datblygu'r ysgol; ac
- nid yw rôl y corff i alw'r ysgol i gyfri am y safonau a'i herio fel cyfaill beirniadol wedi datblygu yn ddigon effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella dylai'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg;

A2 codi safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A3 sicrhau gweledigaeth gadarn a threfn weithredu strategol sy'n llawer mwy dadansoddol;

A4 sicrhau bod proses hunan arfarnu'r ysgol yn llawer mwy arfarnol a bod y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen llawer mwy pwrpasol sy'n cynnwys targedau meintiol;

A5 gwella dealltwriaeth y corff llywodraethol o ddata meincnodi er mwyn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfri yn well;

A6 sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau diogelu priodol ar waith; a

A7 sicrhau bod y corff llywodraethol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.'

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae canlyniadau'r asesiadau sylfaen wrth i blant ddechrau yn yr ysgol yn dangos bod eu medrau yn debyg i neu yn uwch na ffigyrau'r awdurdod lleol yn gyson.

Mae cyflawniad mewn dysgu a chynnydd y disgyblion yn gyffredinol foddhaol. Gall llawer o ddisgyblion alw i gof dysgu blaenorol i bwrpas gan lwyddo i adeiladu arno yn briodol. Yn gyffredinol maent yn cydweithio'n dda ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau ac i'r cwestiynau a holir gan yr athrawon. Mae llawer erbyn diwedd Blwyddyn 6 yn dangos bod eu sgiliau meddwl a'u gallu i weithio'n annibynnol wedi datblygu'n dda.

Mae tystiolaeth ar lawr y dosbarth yn dangos bod llawer yn datblygu medrau cyfathrebu llafar effeithiol yn y Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r modd mae'r disgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn datblygu'r medrau hyn yn gryfder. Ar y cyfan, nid yw eu sgiliau darllen wedi datblygu i'r un graddau. Gall y rhan fwyaf ysgrifennu brawddegau yn gyson ond nid yw rhai llythrennau yn cael eu ffurfio'n gywir ac mae camsillafu sylfaenol i'w weld.

Erbyn cyrraedd Blwyddyn 5 a 6 mae y rhan fwyaf yn dangos cynnydd da yn eu medrau llythrennedd yn y Gymraeg a Saesneg o ran cyfathrebu ar lafar. Mae llawer yn darllen yn ystyrlon ac yn dangos dealltwriaeth o'r testun yn y ddwy iaith. Defnyddiant iaith yn bwrpasol wrth drin a thrafod a llwyddant i ddarllen mewn un iaith gan ddefnyddio'r wybodaeth yn yr iaith arall. Digonol yw'r safonau ysgrifennu yn gyffredinol a chyfyng yw'r amrywiaeth o waith ysgrifenedig. Mae'r mwy abl yn ysgrifennu'n feddylgar a dychmygus ond mae lleiafrif yn dangos anhawster gyda chywirdeb mynegiant.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn anfoddhaol. Er bod elfennau o waith da nid oes ganddynt yr ystod o fedrau angenrheidiol, yn bennaf ym maes trin data a modelu.

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o awduron Cymreig, hanes eu hardal ac artistiaid trwy'r Cwricwlwm Cymreig yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 1 mae perfformiad disgyblion sy'n cael cinio am ddim, fel grŵp, yn uwch na gweddill y garfan. Er bod y gwrthwyneb yn wir yng nghyfnod allweddol 2 am 2011 nid oes patrwm clir tros gyfnod. Y mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd derbyniol. Mae'r disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth o ran ymddygiad yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae perfformiad disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi codi a gwella'n sylweddol ar yr hyn ydoedd dair blynedd yn ôl; nid yw cynnydd diwedd cyfnod allweddol un gystal tros amser. Serch hynny, o'i gymharu â chyfartaleddau ysgolion tebyg mae perfformiad yn gyson is. Mae merched yn perfformio'n gyson well na bechgyn ar bob lefel ac mae'r bwlch rhyngddynt yn sylweddol. Wrth edrych ar ddata'r ysgol mae rhaid cadw mewn cof bod y canran o ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, ynghyd â'r canran disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn llawer uwch na'r awdurdod lleol.

## Lles: Digonol

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r hyn sydd angen i gadw'n iach a'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Maent yn cymryd mantais o gyfleoedd cyson i gael ymarfer corff a gweithgareddau perthnasol mewn clybiau ar ôl ysgol.

Yn unfrydol, mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel iawn a hapus yn yr ysgol. Gwyddant at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae ymddygiad yn y dosbarthiadau ac ar amser chwarae yn dda ac mae'r disgyblion yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymdeithas a'r eglwys Gatholig leol a datblygwyd cyswllt pwrpasol gyda nifer o sefydliadau ac asiantaethau. Drwy'r cysylltiadau hyn maent yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol.

Mae prydlondeb y disgyblion yn dda ond boddhaol yw eu lefelau presenoldeb tros gyfnod o gymharu â ysgolion tebyg o ran canran disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Ar y cyfan, nid yw llais y disgybl yn cael lle amlwg gan nad yw'r cyngor ysgol wedi datblygu'n fforwm digon effeithiol i'r disgyblion gynnig gwelliannau a gweithredu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Darpara'r ysgol ystod ddigonol o brofiadau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion. Mae cynllunio tymhorol yn rhoi sylw priodol i'r pynciau o fewn y cwricwlwm. Cydweithia'r staff yn bwrpasol i gynllunio rhaglenni gwaith sy'n anelu at sicrhau profiadau cyfoethog. Nid yw'r rhain ar bob achlysur yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol ar lawr pob dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl, datrys problemau a hybu annibyniaeth yn golygu bod yr elfennau hyn o waith y disgyblion yn dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Cynllunnir gwaith gwahaniaethol i geisio diwallu anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm ac nid yw anghenion y disgyblion mwyaf galluog yn cael eu diwallu yn ddigonol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sydd yn cyrraedd yr ysgol heb wybodaeth o'r Gymraeg yn effeithiol. Hyrwyddir y Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus ar draws y pynciau.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygu cynaliadwyaeth a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae addoli ar y cyd yn cael ei ddefnyddio'n dda i godi ymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb.

**Addysgu:  Digonol**

Mae gan bob un o'r athrawon berthynas dda iawn gyda'r disgyblion.  Mae hyn yn creu ethos cefnogol sy'n hybu'r dysgu.  Defnyddir defnydd da o ganmoliaeth i ysgogi disgyblion ac mae rheolaeth o fewn y dosbarthiadau yn dda.  Mae'r athrawon yn gyson yn arddangos patrwm iaith da.

Mae'r gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bwrpasol ar y cyfan a gwneir defnydd effeithiol o gymorthyddion i ateb gofynion penodol disgyblion.

Amrywia'r addysgu o dda i ddigonol, gyda'r mwyafrif o addysgu'n ddigonol.  Lle mae'r addysgu'n dda, mae cynlluniau gwersi yn nodi allnodau dysgu penodol clir, defnyddir ystod o ddulliau addysgu priodol gan holi cwestiynau treiddgar sy'n hybu sgiliau meddwl a chaiff cynnydd y disgyblion ei fonitro'n dda.  Lle bo'r gwersi'n ddigonol nid yw'r disgwyliadau yn ddigon uchel ac ni ddarperir gwaith ymestynnol i herio'r disgyblion mwyaf galluog.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n foddhaol ar draws yr ysgol ac yn dda erbyn y blynyddoedd olaf.

Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n gyson.  Lle mae ansawdd y marcio yn dda gwneir sylwadau pwrpasol i ddatblygu'r dysgu.  Ar adegau, nid yw'r sylwadau'n ddigonol i arwain at welliant.  Gosodir targedau unigol i ddisgyblion ond ni sicrheir eu bod yn eu defnyddio'n ddigon cyson.  Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n gyson gyda rhieni am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Anfoddhaol**

Sicrheir cymuned ofalgar gynhwysol lle teimla pawb y cânt eu gwerthfawrogi.  Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda ar draws yr ysgol.  Rhydd yr ysgol sylw arbennig i anghenion personol ac emosiynol y disgyblion.

Darpara'r ysgol gynhaliaeth addas ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol gan lwyddo i'w hintegreiddio yn dda.  Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a disgyblion sydd yn heriol o ran ymddygiad.  Mae'r disgyblion sydd ar ddatganiad yn derbyn cymorth priodol yn unol â gofynion eu datganiadau.

Mae'r ysgol yn gweithio'n foddhaol gydag asiantaethau allanol i adnabod anghenion dysgu'r disgyblion.  Nid yw'r rhain eto wedi cael effaith digonol ar bresenoldeb disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu.  Ond nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu wedi cael eu datblygu'n llawn gan nad yw y staff ategol yn ddigon hyddysg ynddynt ac nid yw'r arweinwyr yn hollol gadarn yn eu ffeithiau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch gynnes a chyfeillgar o fewn yr ysgol sy'n annog y plant i barchu eraill a'u trin yn deg. Mae'r athrawon yn datblygu agweddau goddefgar, ac yn hyrwyddo atal a chael gwared ar ymddygiad gormesol yn dda. Cydweithia'r disgyblion yn dda gan werthfawrogi cyfraniadau eraill mewn gwaith grŵp.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd pwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu.

Mae'r adeilad yn cynnig ystod o ddosbarthiadau a chyfleusterau pwrpasol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd da ohonynt. Mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn ysgogi a datblygu sgiliau meddwl. Mae amrywiaeth da o adnoddau yn cael eu defnyddio er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth yn hyrwyddo ethos hapus a gofalgar yn yr ysgol. Mae pob aelod o'r staff addysgu yn ymwybodol o'u rôl a chyfrifoldebau traws ysgol ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd. Serch hynny, nid oes gan yr ysgol strategaeth ddigon clir a phenodol ar gyfer codi safonau.

Er fod gan yr ysgol ystod eang o bolisïau nid oes polisiau cyfredol ar gyfer hygyrchedd na chydraddoldeb i'r anabl. Nid oes cyfeiriad atynt, fel sydd yn ofynnol, ym mhrosbectws yr ysgol nac yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn ymweld â'r ysgol i drafod meysydd ac i arsylwi gwersi. Derbyniant adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ond nid yw'r rhain â digon o wybodaeth gymharol am y teulu o ysgolion y perthyn yr ysgol iddynt nac o feincnodau'r grŵp prydau ysgol di-dâl. O ganlyniad, nid oes gan y llywodraethwyr wybodaeth safonol o berfformiad yr ysgol. Mae hyn yn ei dro yn llesteirio gallu'r corff i ddwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a'r ansawdd y mae'n eu cyflawni ac i gymryd rôl digon blaenllaw ym mhroses hunan arfarnu'r ysgol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac mae'r egwyddorion yn weithredol drwy'r adran gydag adnoddau addas ac ysgogol. Mae'r arferion o ddatblygu medrau meddwl y disgyblion ac o asesu ar gyfer dysgu yn cael eu hymgorffori o fewn yr addysgu yn dilyn rhannu arfer dda o fewn yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae trefn hunan arfarnu'r ysgol yn cynnwys y staff dysgu o fewn y broses o edrych ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi. Ond nid yw'r adroddiadau pynciol ar bob achlysur yn adnabod y mannau pwysig i'w datblygu. Prin yw'r defnydd o ddata perfformiad, gwybodaeth tracio, a thystiolaeth uniongyrchol i gynllunio ar gyfer gwella. Er bod adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn dilyn y tri chwestiwn allweddol,

rhestrau a geir sydd yn amlinellu beth mae'r ysgol yn ei wneud yn hytrach nac arfarniad dadansoddol. Nid oes digon o sylw yn cael ei roi i ddata'r ysgol nac at dargedau meintiol. Mae'r adroddiad yn cydnabod cryfderau'r ysgol, ond nid y meysydd i'w datblygu.

Nid oes yna gysylltiad digon clir ac amlwg rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn cyfeirio yn briodol at y camau i'w cymryd, y meini prawf llwyddiant, amseriad a chyfrifoldeb pwy, trefniadau monitro a chyllidebu. Er hynny, nid yw'r cynnwys yn ddigon penodol nac yn cynnig targedau meintiol fydd yn hawdd eu mesur yn nhermau cynnydd neu welliant mewn safonau. Nid oes cyfeiriad digonol at anghenion hyfforddi neu drefniadau ar gyfer manteisio ar arferion da.

Ni weithredwyd yn llawn ar bedwar allan o'r chwe argymhelliad yn dilyn yr arolygiad flaenorol.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r elfen o rwydweithio mewnol ac wedi ymdrechu i rannu arferion da ar rai agweddau diweddar megis medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Ceir cydweithio adeiladol sy'n parhau i ddatblygu'n dda gydag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch yn benodol ar gyflwyno ac asesu gwyddoniaeth. Cysylltir hefyd ag ysgolion Catholig eraill o fewn gogledd Cymru i rannu arferion mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd, nid yw'r gweithgareddau presennol yn effeithio'n ddigonol ar godi safonau.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol. Mae perthynas gref yn bodoli gyda'r rhieni ac maent yn cefnogi gwelliannau megis peintio rhannau o'r ysgol a chodi arian ar gyfer prynu adnoddau ychwanegol. Mae cysylltiadau clos gyda'r gymuned leol a'r eglwys sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd profiadau'r disgyblion, megis gwasanaeth gwirfoddolwr yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen.

Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo pwrpasol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol. Mae gwaith cymedroli addas wedi bod ar waith hyd at eleni. Nid oes trefniadau trosglwyddo yn eu lle gyda'r feithrinfa leol.

Mae staff a disgyblion yr ysgol yn elwa o'r cysylltiadau gyda Phrifysgol Bangor, Coleg Menai a Hyfforddiant Gwynedd drwy dderbyn hyfforddeion ar brofiad ysgol ac ymarfer dysgu.

### Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Mae'r defnydd a wneir o'r cymorthyddion yn ychwanegu at y profiadau a chefnogaeth ar gyfer disgyblion o fewn bob dosbarth.

Defnyddir yr ystod dda o adnoddau sydd ar gael yn briodol ar gyfer atgyfnerthu'r dysgu.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n bwrpasol.

Mae'r Corff Llywodraethol yn rheoli'r gyllideb yn briodol ac mae unrhyw wariant arian wrth gefn yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol.

Gan mai digonol yw safonau a bod yr ysgol yn gwneud defnydd derbyniol o adnoddau, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dadansoddiad o'r data meincnodi.

Mae perfformiad disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn codi a gwella'n sylweddol ar yr hyn ydoedd rai blynyddoedd yn ôl. Nid yw perfformiad diwedd cyfnod allweddol 1 gystal tros amser.

Yn 2011 yn y ddau gyfnod allweddol, ac wedi'i meincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y chwartel isaf ym mhob pwnc. Serch hynny nid oes patrwm tros gyfnod gan i befformiad cyfnod allweddol 1 fod yn y ddau chwartel uchaf o ran y pynciau am ddwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Nid yw perfformiad cyfnod allweddol 2 gystal gan fod y pynciau wedi bod yn y ddau chwartel isaf dros yr un cyfnod.

Mae cymariaethau ag ysgolion y teulu y perthyn yr ysgol iddi yn dangos yn 2011 bod disgyblion diwedd cyfnod allweddol 1 yn gyson yn perfformio'n is na'r disgwyl o ran lefel her yr ysgol. Ond tros gyfnod o bedair blynedd nid oes patrwm pendant. Mae data diwedd cyfnod allweddol 2 am 2011 yn dangos bod y disgyblion yn perfformio'n gyffredinol agos i'r disgwyl yn y pynciau ar wahân i fathemateg. Serch hynny, tros gyfnod mae'r disgyblion yn perfformio'n is na'r teulu am lawer o'r cyfnod yn y pynciau ar wahân i'r Gymraeg. Mae canlyniadau'r Gymraeg yn gyson uwch na'r teulu.

Yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 1 mae perfformiad y merched o ran cyrraedd y lefel disgwyliedig yn well na bechgyn. Yng nghyfnod allweddol 2 mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhywiau ym mhob pwnc gyda'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar bob lefel. Nid oes yr un bachgen wedi cyrraedd lefel 5 yn y Gymraeg na Saesneg yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae'r canran sy'n cael y lefelau uwch yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 yn gyson uwch na'r teulu. Ond mae'r canran sy'n cael y lefelau uwch yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn is na'r teulu tros amser.

Mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig yn llafar a darllen ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn y Gymraeg tros amser yn uwch na'r teulu. Ond mae canrannau nad ydynt yn cyrraedd y lefel disgwyliedig hefyd yn uwch na'r teulu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llafar a darllen yn eithaf cyson yn uwch na'r teulu. Fel Saesneg, mae safonau ysgrifennu yn gyson yn sylweddol is.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 17 o ymatebion i'r holebion gan rieni:

Mae bron pob un yn nodi bod eu plant yn cael:

- cymorth i ymgartrefu'n dda; a'u
- hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae llawer yn nodi:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae lleiafrif yn nodi:

- nad yw'r ysgol yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- nad yw disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion
- nad ydynt yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; ac
- nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol; ac
- nad yw, neu nad ydynt yn gwybod bod, eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae ychydig yn nodi:

- nad oes, neu nid ydynt yn gwybod a oes, amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 39 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac roeddynt yn unfrydol:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol; a'u
- bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

Mae bron pob un yn credu:

- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a'u
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae'r rhan fwyaf yn credu:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio; a
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach.

Mae llawer yn credu:

- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae lleiafrif yn credu nad:

- nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda ac nad ydynt yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae ychydig yn credu:

- nad yw plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio; ac
- nad oes ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Jane Peate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eirian Bradley-Roberts | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |